Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cadeirydd: Euros Roberts

**Gwysir Cynghorwyr i fynychu cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**Nos Fawrth, 5/9/23 am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd Bentref neu trwy gyfrwng Zoom**

**Cyhoedd:** *Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor: cysyllter â'r Clerc*
Darperir cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – *gweler y Rheolau ar y wefan, neu cysyllter gyda'r Clerc*

**Agenda:**

**2537 Sylwadau'r Cadeirydd**

**2538 Cyflwyniad:** Eilir Owen**,** Openreach

**2539 Derbyn Ymddiheuriadau**

**2540 Buddiant:** Derbyn datganiadau o fuddiant

**2541 Cofnodion:** Cadarnhau cywirdeb cyfarfod 4/7/23

**2542 Materion y Clerc /Cofnodion**

2528 ii TG y Cyngor Huw Antur

2528 iii Camerâu APNR Huw Antur

2530 vi Rheolau Sefydlog wedi eu diwygio yn ôl canllawiau Un Llais Cymru

2531 ii Ymateb Lloyds Coaches i gais am nawdd

2531 iii Llythyr o ddiolch am y cyfraniad ariannol oddi wrth Menter Cymunedol Llanuwchllyn.

2535 Mapio llwybrau'r ardal – Alwyn E Jones

**2543 Cyngor Gwynedd** Derbyn Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans

**2544 Is-bwyllgorau**

1. Grwp Datblygu
2. Mynwentydd
3. Bioamrywiaeth, yn cynnwys diweddariad am y goedlan fach.
4. Nadolig
5. Asedau
6. Cyllid

**2545 Ystyried Materion Ariannol: SAC:** Derbyniadau ac anfonebau'r mis

Clerc: Lis Puw: 01678 540654 07896964120 cyngor-llanuwchllyn@outlook.com
Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk

**2546 Cwmni Pum Plwy Penllyn** Derbyn adroddiad y cynrychiolwyr

**2547 Cynllunio:** Nodi'n ffurfiol cymeradwyaeth y Cynghorwyr mewn ymgynghoriad e-bost i geisiadau:

i. Derwen Gam – derbyn gwybodaeth am y cais i ddiddymu rheol 19/7/73
ii. **NP5/71/426A** Tir wrth Pen geulan: Codi estyniad i adeilad amaethyddol presennol ar gyfer cadw porthiant a peiriannau (**Datganwyd buddiant** gan Heledd Jones ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth)
iii. **NP5/71/476B** Adeiladu lolfa haul i ochr y tŷ, Lloches Don, Llanuwchllyn
iv. Ystyried cais **NP5/71/21L,** sef Adeiladu tŷ gweithiwr amaethyddol a gosod tanc septig, Tir yn Dolhendre Isa, Llanuwchllyn. LL23 7TD

**2548 Gohebiaeth:**

i. Coedwig Cenedlaethol i Gymru: ystyried llythyr yn cynnig grantiau ar gyfer creu coedwigoedd a choedlannau
ii. Cronfa Perchnogaeth Cymunedol – derbyn gwybodaeth fod y gronfa ar agor ar gyfer ceisiadau
iii. Mabon ap Gwynfor: gwahoddiad i drafod darpariaeth deintyddol ar Teams 11/9/23 am 10.30
iv. Mabon ap Gwynfor: gohebiaeth am ddiogelwch yr A494
v. Cyngor Gwynedd: Rhybudd cau'r ffordd rhwng Cae Gwalia a Garth Gwyn 19/9/23 ymlaen – gwaith 3 diwrnod - gan Dwr Cymru.
vi. Cyngor Gwynedd: ystyried gohebiaeth am Erthygl 4, sef defnydd o dai preswyl (*ddim yn uniongyrchol berthnasol i ardal Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd*)
vii. Cyngor Gwynedd: derbyn gwybodaeth am feysydd parcio ardal Llyn Tegid.
viii. Un Llais Cymru: derbyn rhestr o hyfforddiant sydd ar gael.

**2549 Materion lleol y Cynghorwyr:**

**2950 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 3/10/23 yn y Neuadd Bentref.